## ASTUDIAETH ACHOS: Camp Plas

**Cyflwyniad**

Mae Camp Plas ychydig y tu allan i bentref Dolanog, ar hyd Afon Efyrnwy. Fferm weithiol fach draddodiadol gyda gwersyllfa a man cyfarfod ar gyfer digwyddiadau ydy Camp Plas. Mae'n rhan o'r Clwb Gwersylla Gwyrddach. Mae gwersyllwyr yn codi eu pabell yn y ddôl, gyda glaswellt wedi'i dorri i greu llwybrau trwy'r ddôl o'r prif lwybr i'r llain. Mae yna gyfyngiad ar nifer y pebyll a ganiateir ar y safle, sy'n ei wneud yn lle heddychlon i ddod i aros. Mae gan wersyllfa Camp Plas "Y Tŷ Cwch", sef caban bach a hefyd "Cuddfan Bach", sef pabell gloch, ac mae pobl yn gallu aros yn y rhain.

Mae yna ysgubor fawr a ddefnyddir ar gyfer digwyddiadau fel ioga, nosweithiau cerdd a phriodasau, sydd fel rheol yn cynnwys aelodau'r gymuned leol.

**Y Prosiect**

**Rheoli'r Tir**

Ymwelodd staff Ymddiriedolaeth Natur Sir Drefaldwyn (MWT) â'r safle ym mis Medi 2021. Rhoddwyd cyngor ar sut i wella'r wersyllfa a'r ffermdir o amgylch ar gyfer bioamrywiaeth, fel creu pyllau dŵr, rheoli ardaloedd o wlyptir, cael gwared â llwyni rhododendron goresgynnol anfrodorol yn ardal y coetir, a'r posibilrwydd o ddefnyddio gwahanol dda byw ar gyfer pori, yn ogystal â'r defaid sydd eisoes ar y fferm.

Mae Camp Plas wedi gadael yr ardal o wlyptir, lle cafwyd hyd yn oed grifft llyffaint tuag at ddiwedd gaeaf 2022, ac maen nhw'n rheoli'r mwyafrif o dir y wersyllfa fel dôl, trwy gyfyngu ar dorri glaswellt a chaniatáu i'r defaid bori'n drwm ar ddechrau'r hydref.




Y ddelwedd ar y chwith: Grifft llyffaint yn ardal y gwlyptir © MWT. Y ddelwedd ar y dde: Ardal y ddôl ©Camp Plas

**Cysylltu ymwelwyr â bywyd gwyllt**

Mae Camp Plas eisoes yn aelod o'r Clwb Gwersylla Gwyrddach, ond mae perchnogion y safle eisiau i ymwelwyr gysylltu mwy fyth â natur.

Fis Chwefror 2022, cynhaliodd MWT ddigwyddiad "Bonansa Adar" ar gyfer y gymuned leol, ond gwnaeth ymwelwyr a oedd yn aros yn Y Tŷ Cwch fynychu hefyd. Gwnaethon ni adeiladu blychau adar a dysgu sut i ofalu am yr adar yn eich gardd gartref. Aethon ni hefyd am dro bach o amgylch y safle i chwilio am adar. Gosodwyd rhai o'r blychau adar o amgylch y safle, ac aeth y mynychwyr â rhai eraill adref i'w gosod yn eu gerddi eu hunain.

Fis Awst 2022, cynhaliodd MWT Noson Ystlumod a Gwyfynod gyda Grŵp Gwyfynod Sir Drefaldwyn. Mynychodd bron 40 o bobl y digwyddiad. Roedd hanner y bobl yn aros yn y wersyllfa, ac aelodau o'r gymuned leol oedd y gweddill. Aethon ni am dro i chwilio am ystlumod, ac yna edrych ar beth oedd wedi'i ddal yn y maglau gwyfynod.
Mae Camp Plas hefyd wedi darparu gweithgareddau ymgysylltu ychwanegol ar gyfer ymwelwyr, fel rhwydi pysgota i'r plant eu defnyddio yn yr afon, dalenni adnabod bywyd gwyllt a syniadau ar gyfer gweithgareddau natur y gallan nhw eu gwneud ar y safle.





Y ddelwedd ar y chwith: Adeiladu blychau yn y digwyddiad Bonansa Adar ym mis Chwefror 2022.

Y ddelwedd ar y dde: Anerchiad rhagarweiniol y Noson Ystlumod a Gwyfynod ym mis Awst 2022. © MWT

**Allbynnau'r Prosiect**

Darparodd MWT gyngor ysgrifenedig a llafar a chynnal digwyddiadau yng ngwersyllfa Camp Plas. Mynychodd preswylwyr o'r wersyllfa ac aelodau o'r gymuned leol y digwyddiadau.

| **Rheoli tir** | | |
|---|---|---|
| Rhoddwyd cyngor ysgrifenedig a llafar a chymerwyd camau yn unol â hyn. | | |
| **Cysylltu ymwelwyr â bywyd gwyllt** | | |
| | Mynychwyr | Blychau a wnaed/ y gwnaed rhodd ohonyn nhw |
| Bonansa Adar | 24 | 24 |
| Noson Ystlumod a Gwyfynod | 40 | n/a |

**Deilliannau'r Prosiect**

- Mae cysylltiad MWT â gwersyllfa Camp Plas wedi arwain at drefn rheoli cynefinoedd newydd sydd eisoes wedi gwella bioamrywiaeth y safle a phrofiad yr ymwelwyr. Bydd ymwelwyr hefyd ar eu helw o ddysgu am y ffordd o reoli'r wersyllfa.
- Grymusodd y digwyddiadau y bu MWT yn eu cynnal yng ngwersyllfa Camp Plas gyfanswm o 64 o bobl i gymryd camau er budd bywyd gwyllt, gan gynnwys adeiladu a chodi 24 o flychau nythu ar y safle ac yn y gymuned leol.
- Mae'r cysylltiadau rhwng Camp Plas a'r gymuned leol wedi'u hatgyfnerthu.
- O ganlyniad i'r rhan y bu Cysylltiadau Gwyrdd Powys yn ei chwarae, mae perchnogion y safle'n ymhél â phrosiect Tîm Gwylltach newydd MWT yn yr ardal ehangach, â'r nod o greu grŵp cadwraeth gyda thrigolion lleol yn Nolanog a'r cyffiniau.